



5-10 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol

Arbrofi â thraw;
creu offerynnau; dysgu
sut mae addasu sain

Offerynnau

Oes – unrhyw
offerynnau sydd ar gael
ond offerynnau taro
fyddai'r gorau

Hygyrchedd

Mae'r cynllun gwera
yma yn addas i
ddisgyblion sydd ag
anawsterau clyw.

1. Gweithgaredd i Gynhesu

Play Them!

Ar gyfer y gêm yma, mae'n rhaid i bob plentyn gael offeryn taro (offeryn ysgwyd, drymiau, castanetau, tambwrinau ac ati).

Eglurwch y byddwch chi'n canu cân i'r plant a'i bod yn rhaid iddyn nhw wrando ar y cyfarwyddiadau chwarae (cryf, tawel, uchel, isel ac ati) ym mhob pennill. Wedyn, canwch y gân 'Play Them!'.

Play Them! (i alaw *London Bridge is Falling Down*):

Nodyn: Rhowch un bar o saib er mwyn i bawb chwarae'n gryf

Play them, play them, play them loud! [Saib]
Play them loud! [Saib]. Play them loud! [Saib]
Play them, play them, play them loud! [Saib]
Playing all day long!

Gallwch newid y geiriau i 'Play them soft', 'Play them high', 'Play them happy' ac yn y blaen.

Mae'r gweithgaredd yma wedi cael ei ddylunio i ddatblygu sgiliau gwranddo plant a'u sgiliau chwarae mewn grŵp. Byddan nhw'n gallu chwarae offeryn taro mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys defnyddio cerddoriaeth i ddangos emosiwn. Mae'r gweithgaredd hwn hefyd yn ddelfrydol i ddatblygu sgiliau echddygol bras.

Play Them!

Play them, play them, play them loud! [PLAY] Play them loud!

[PLAY] Play them loud! [PLAY] Play them, play them, play them loud!

[PLAY] play them loud! Play - ing all day long!



 10-15 munud

2. Sonic Explorers

Beach/Prehistoric



Gwylwch Bennod 3 *Sonic Explorers* gyda'ch gilydd. Gofynnwch i'r plant ddisgrifio'r seiniau roedden nhw'n gallu eu gweld/clywed yn y fideo. Er enghraifft:

- Hosan wynt yn *fflapio*
- Dŵr yn *byrlymu*
- Dinosor yn *stompio*
- Ci yn *cyfarth*
- Tonnau yn *torri*

Os nad ydych chi'n siŵr o'r arwyddion ar gyfer rhain, gallwch eu gweld yng ngeiriadur fideo BSL www.signbsl.com.



Gofynnwch gwestiynau i'ch dosbarth am y fideo, fel:

- Ydych chi erioed wedi clywed y tonnau ar lan y môr?
- Ydych chi'n gwybod beth ydy mamoth?
- Ydych chi erioed wedi gweld cyllell fôr? Allwch chi wneud sŵn byrlymu?

Bydd y cwestiynau hyn yn helpu'r plant i ddeall y byd ehangach. Drwy'r gweithgaredd hwn byddan nhw'n gallu adnabod a dynwared amrywiaeth o seiniau o amgylcheddau cyfarwydd ac anghyfarwydd.





20-30 munud

3. Prif Weithgaredd

Creu Organ Ddŵr

Byddwch chi angen:

- 4–10 potel wydr glir, o'r un maint
- Dŵr
- Lliwiau bwyd
- Llwy bren neu fetel



Efallai bydd angen i chi benderfynu faint o ddŵr sydd ei angen ym mhob potel i gael y traw iawn a marcio'r lefel honno ar y botel cyn cynnal y gweithgaredd hwn gyda'ch myfyrwyr.

Cyfarwyddiadau

1. Llenwch bob potel gyda dŵr hyd at lefelau gwahanol er mwyn gallu clywed trawiau gwahanol.
2. Ychwanegwch liwiau bwyd at bob potel i adnabod y 'nodau'.
3. Tarwch y poteli gyda llwy bren neu fetel a gwranddo ar y trawiau gwahanol!

Ar ôl i chi greu eich organ ddŵr, rhowch y poteli mewn trefn yn ôl faint o ddŵr sydd ynddyn nhw (y rhai gyda'r mwyaf o ddŵr ar y chwith, a'r rhai gyda'r lleiaf o ddŵr ar y dde).



Chwaraewch yr organ ddŵr drwy daro pob potel yn ysgafn gyda llwy/ffon bren neu fetel. Defnyddiwch yr offeryn i ddysgu am drawiau (seiniau uchel/isel) a dynameg (seiniau cryf/tawel) gyda'r plant.





Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant:

- Pa botel sy'n rhoi'r sain uchaf? Allwch chi ganu sain uchel?
- Pa botel sy'n rhoi'r sain isaf? Allwch chi ganu sain isel?
- Allwch chi wneud sŵn tawel?
- Allwch chi wneud sŵn cryf?
- Allwn ni chwarae alaw gyda'r Organ Ddŵr?

Gan ddibynnu ar faint o boteli sydd gennych chi yn eich organ ddŵr, gallwch chi chwarae alawon gwahanol. Dyma ambell awgrym ar gyfer hwiangerddi adnabyddus:

- 3 Potel: Hot Cross Buns
- 4 Potel: Mary had a Little Lamb
- 5 Potel: London's Burning
- 6 Potel: Twinkle Twinkle Little Star

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Cymraeg
Gwyddoniaeth
Celf



5 munud



Mae modd gwneud Uchel–Isel yn anoddach i blant hŷn drwy gynnwys nodau trawiau amrywiol yn y canol. Dywedwch wrth y plant amrywio eu huchder yn ôl y traw – e.e. dylen nhw sefyll os byddan nhw'n clywed nodyn canol-uchel, neu fynd ar eu cwrcwd os byddan nhw'n clywed nodyn canol-isel.

4. Diwedd y Wers

Uchel–Isel

Gofynnwch i'r dosbarth sefyll mewn grŵp. Defnyddiwch yr organ ddŵr (neu offeryn arall fel piano) i chwarae trawiau nodau gwahanol.

Os oes gan y nodyn draw uchel, rhaid i'r plant ymestyn yn uchel. Os yw'r traw yn isel, rhaid i'r plant eistedd ar y llawr.

Gallwch chi weld y gweithgaredd hwn yn cael ei chwarae yn y fideo 'High–Low' yn adran Teacher Techniques y wefan.

The British fingerspelling alphabet

Aa 	Bb 	Cc 	Dd 	Ee 	Ff 
Gg 	Hh 	Ii 	Jj 	Kk 	Ll 
Mm 	Nn 	Oo 	Pp 	Qq 	Rr 
Ss 	Tt 	Uu 	Vv 	Ww 	Xx 
Yy 	Zz 				

www.ndcs.org.uk

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales no. 1032023 and in Scotland no. SC004377.
© National Deaf Children's Society October 2017 | 013746